***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2012.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 34. (See end of Document for details)*

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU LLYWODRAETHU SYDD AR GAEL

*Gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor*

### 34 Diddymu gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11 (gweithrediaethau llywodraeth leol)—
   (a) hepgorer is-adran (4) (gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor);
   (b) yn is-adran (10)—
      (i) hepgorer "or an officer";
      (ii) hepgorer "or (4)(b)".

(3) Hepgorer adran 16.

(4) Yn adran 26 (cynigion nad yw refferendwm yn ofynnol ar eu cyfer), yn is-adran (2)—
   (a) ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder "or";
   (b) hepgorer paragraff (b).

(5) Yn adran 48 (dehongli Rhan 2), yn is-adran (1), hepgorer y diffiniad o "council manager".

(6) Yn Atodlen 1 (trefniadau gweithrediaeth: darpariaeth bellach), hepgorer paragraff 3.

(7) Yn Neddf Llywodraeth Leol 1972—
   (a) yn adran 21 (cyfansoddiad prif gynghorau yng Nghymru), yn is-adran (1A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";
   (b) yn adran 22 (y cadeirydd), yn is-adran (4A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2012.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 34. (See end of Document for details)*

(c) yn adran 25A (teitl cadeirydd neu is-gadeirydd cyngor bwrdeistref sirol), yn is-adran (3)), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(d) yn adran 245 (statws dosbarthau, plwyfi a chymunedau penodol), yn is-adrannau (1A) a (4A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(e) yn adran 270 (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â dehongli), yn is-adran (1), yn y diffiniad ""mayor and cabinet executive" and "mayor and council manager executive"" hepgorer "and "mayor and council manager executive"".

(8) Yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989—

(a) yn adran 5 (dynodiad ac adroddiadau'r swyddog monitro), yn is-adran (3)(b), hepgorer y geiriau o "and, in a case where" hyd at ddiwedd paragraff (b);

(b) yn adran 5A (adroddiadau'r swyddog monitro - awdurdodau lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth), yn is-adran (5)(b), hepgorer y geiriau o "and, where" hyd at ddiwedd paragraff (b);

(c) yn adran 13 (hawliau pleidleisio aelodau o bwyllgorau penodol: Cymru a Lloegr)—

(i) hepgorer is-adran (5A);

(ii) yn is-adran (9), hepgorer "and "mayor and council manager executive"";

(d) yn adran 21 (dehongli Rhan 1), yn is-adran (3), hepgorer ""council manager"" a "and "mayor and council manager executive"".

(9) Yn adran 106 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (treth gyngor a thâl cymunedol: cyfyngiadau ar bleidleisio)—

(a) yn is-adran (1), hepgorer "or a council manager within the meaning of section 11(4)(b) of the Local Government Act 2000";

(b) yn is-adran (2), hepgorer "or a council manager".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/04/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 34.